Taflen Grynodeb: Bananas Ynysoedd Windward

Yn seiliedig ar erthygl yn The Observer, dydd Sul 13 Mawrth 2005
(mae'r erthygl lawn ar gael ar: www.guardian.co.uk/globalisation/story/0,7369,1435692,00.html#article_continue)

Diwydiant Dominica

Mae Dominica'n ynys hardd yn haul Môr y Caribî. Mae'n rhan o gadwyn o ynysoedd o'r enw Ynysoedd y Gwynt a bananas yw ei phrif ddiwydiant. Mewn gwirionedd, mae chwe deg cent o bob doler yn dod o gynhyrchu bananas! Mae ffermwyr sy'n tyfu bananas Masnach Deg yn gallu talu ychydig yn rhagor iddyn nhw eu hunain a chefnogi prosiectau cymunedol megis rhoi goleuadau yn y ganolfan iechyd leol neu ddesgiau a chadeiriau yn yr ysgol gynradd. Ond mae'n dal yn fywyd caled. Erbyn hyn mae diwydiant bananas Ynysoedd y Gwynt yn cael ei fygwth. O fis Ionawr 2006, mae rheolau masnach y byd sy'n rheoli bananas yn newid.

O Dan Lywodraeth Prydain

Erbyn hyn mae Dominica'n annibynnol ond ar un adeg roedd o dan reolaeth Prydain. Mae'r rhan fwyaf o dyfwyr bananas yn Ynysoedd y Gwynt yn ddisgynyddion caethweision a gafodd eu dadwreiddio'n ddidrugaredd o Affrica a'u rhoi i weithio i dyfu cyfres o gnydau. Pan ddaeth cynhyrchu siwgr yn amhroffidiol, anogodd Prydain Ynysoedd y Gwynt dyfu bananas. Credai'r ffermwyr fod ganddynt farchnad warantedig ar gyfer eu bananas yn y DU.

Cwmnïau Rhyngwladol

Ond mae cwmnïau mawr (neu rai rhyngwladol) yr Unol Daleithiau yn dadlau fod cael marchnad warantedig yn annheg. Maen nhw eisiau newid rheolau masnach. Maen nhw eisiau cyfle i werthu'u 'bananas doler' rhatach eu hunain (h.y. wedi'u cynhyrchu gan gwmnïau'r Unol Daleithiau) mewn siopau yn y Deyrnas Unedig lle mae Ynysoedd y Gwynt wedi gwerthu'u bananas erioed. Mae ffermwyr y Caribî'n gwybod y bydd llawer o archfarchnadoedd yn dewis gwerthu'r bananas rhatach ac y gallai diwydiant bananas y Caribî gael ei chwalu.

Llafur Caled

Mae'r Cwmnïau Rhyngwladol yn tyfu llawer o'u bananas ar blanhigfeydd enfawr yn Guatemala, ble mae llafur yn rhatach oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o weithwyr yn aelodau o undeb.

"Oni bai eu bod yn gweithio ar blanhigfa ble mae yno undeb weithgar, mae gweithwyr bananas Guatemala'n ennill llai na'r isafswm cyflog am ddiwrnod gwaith 12 – 14 awr, chwe diwrnod yr wythnos. Weithiau hefyd mae'n rhaid iddyn nhw godi am dri o'r gloch y bore er mwyn cael cludiant i'r gwaith." ***Selfa Sandoval**, trefnydd undeb llafur yn Guatemala*

Annie Bungeroth

Bananas Ynysoedd y Gwynt yn cael eu bygwth
Nid yw Ynysoedd y Gwynt yn gallu cystadlu â'r bananas 'doler'. Eisoes mae pobl yn gadael Dominica. Mae un ffermwr yn dweud fod 5,000 o bobl wedi gadael ei ardal. Mae tyfwyr bananas y Caribî hefyd yn cael anhawster i gael benthyciadau - mae'r banciau yn eu gweld yn ormod o risg.

> ***"Os bydd y drefn bananas newydd yn mynd yn ei blaen, gallwn fynd yn dlodion dros nos."***
>
> **Lewis Straker**, dirprwy brif weinidog St Vincent.

Mae dirprwy brif weinidog St Vincent yn dweud fod gan ddefnyddwyr Prydain ddewis: prynu bananas melys, wedi'u cynhyrchu'n dda gan weithwyr sy'n cael eu talu'n deg neu fananas o 'sefydliadau trawsgenedlaethol yn elwa ar lafur caethwasiaeth''.

Gobaith

Mae Ynysoedd y Gwynt yn disgwyl i weld a fydd llywodraeth Prydain yn sefyll i fyny dros fananas y Caribî. Maen nhw'n gwybod na fydd unrhyw lywodraeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd yn gwneud hynny.

Translated by Fair Trade Wales
Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales